**P-05-966 STOPIWCH yr isafbris am alcohol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Raymond Mainwaring, ar ôl casglu cyfanswm o 64 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Stopiwch yr isabris am alcohol. NID yw pobl Cymru wedi pleidleisio dros y gyfraith WIRION hon. Nid oes UNRHYW dystiolaeth yn unrhyw le yn y byd bod hyn yn gweithio. Y cyfan y bydd yn ei wneud yw cosbi'r rhai llai cefnog a phensiynwyr, ni fydd pobl sy'n ennill cyflog da fel aelodau'r Llywodraeth yn teimlo effaith y ddeddf a orfodir arnom. Nid yw'r treial a wnaed yn yr Alban wedi llwyddo i leihau'r maint o alcohol a yfir, os unrhyw beth, mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n troi at gyffuriau a chynnydd mawr mewn dwyn o siopau. Ydyn ni eisiau hyn i Gymru? Pryd fydd y Llywodraeth yn dysgu nad yw unrhyw ddull o wahardd yn gweithio? Ystyriwch hanes.

**Etholaeth a Rhanbarth y Senedd**

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru